COLEG CATHOLIG DEWI SANT

ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2019 O EFFAITH

Liane Wigley ydy'r Hyrwyddwr Menter yng Ngholeg Dewi Sant a gallwch gysylltu â hi ar e-bost:

lwigley@stdavidscollege.ac.uk

St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Mae ethos Dewi Sant yn ceisio sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'n gyfannol; nid yw ein huchelgais wedi'i gyfyngu i fyfyrwyr sy'n cyflawni'r graddau uchaf y gallan nhw eu cyrraedd, ond eu bod yn datblygu ac yn gwella eu sgiliau ehangach ymhellach i sicrhau eu bod yn cynyddu eu siawns o lwyddo mewn perthynas â'u huchelgeisiau yn y dyfodol.

Mae addysg entrepreneuriaeth yn cael ei ystyried yn gyfrwng i ddatblygu sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd. Mae dod i ddeall pwysigrwydd creadigrwydd, perthnasoedd, agweddau a gallu sefydliadol ynghyd â datblygu hyfedredd cymwys yn y meysydd hyn yn rhagflaenwyr hanfodol i lwyddiant yn y dyfodol. Felly, mae'r weledigaeth yn un lle mae gan bob un o'n dysgwyr fynediad at addysg entrepreneuriaeth. Mae'r ymrwymiad hwn, sydd i bawb, yn arwain at roi cyfle i bob dysgwr ddatblygu a gwerthuso eu sgiliau cysylltiedig ag entrepreneuriaeth a rhoi cyfle i bob dysgwr archwilio'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn entrepreneur; p'un a yw hynny'n opsiwn tymor byr neu dymor canolig / hir. Yna nod y Coleg ydy cefnogi'r dysgwyr hynny sydd wedi'u hysbrydoli'n wirioneddol trwy ddarparu cyfleoedd i fireinio eu sgiliau entrepreneuriaeth ymhellach a'u gosod yn y pen draw ar y llwybr at hunangyflogaeth gynhyrchiol a llwyddiannus.

EIN NOD YW CREU GALLU MENTER YN EIN HOLL DDYSGWYR...

- *I GYNRYD AMBELL RISG*
- *I FOD YN GREADIGOL*
- *I GAEL UCHELGAIS*
- *I FOD YN ARLOESOL*
- *I WNEUD I BETHAU DDIGWYDD*
- *I FOD HYDER*

CEFNOGIR Y NOD HWN GAN

Datblygu gallu ein holl fyfyrwyr i ddysgu a meddwl mewn modd mentrus.

Sicrhau y gall pob myfyriwr wneud cynnydd personol mewn ystod o bynciau a gweithgareddau trwy fenter.

Sicrhau bod pob myfyriwr yn deall perthnasedd dysgu menter llwyddiannus ar gyfer eu dyfodol ac fel eu paratoad ar gyfer y gweithle.

Sicrhau bod pob myfyriwr yn datblygu agweddau mentrus cadarnhaol, cydweithredol.

Hyrwyddo hunangyflogaeth fel cyfle dilyniant hyfyw.

Sicrhau bod pob myfyriwr yn datblygu lefel gymwys o allu ariannol a dealltwriaeth o gyd-destun busnes

Sicrhau bod pob myfyriwr yn datblygu ac yn gwella ei set sgiliau entrepreneuraidd.

DYMA FEL Y BU PETHAU ELENI

2726

YMGYSYLLTU

CYFANSWM Y MYFYRWYR YMGYSYLLTODD MEWN GWEITHGAREDDAU CYNYDDU YMWYBYDDIAETH

210

GRYMUSO

CYFANSWM Y MYFYRWYR GYMERODD RAN MEWN GWEITHGAREDDAU I GYNYDDU EU GALLU ENTREPRENEURAIDD

43

CYFARPARU

CYFANSWM Y MYFYRWYR WNAETH DDILYSU SYNIADAU BUSNES NEU BRAWF-FASNACHU

17

GALLUOGI

NIFER Y STAFF SY'N HYRWYDDO ENTREPRENEURIAETH O FEWN PWNC ACADEMAIDD NEU ADRAN

15

CYFARPARU

CYFARPARU: CYFANSWM Y MYFYRWYR A GRADDEDIGION OEDD YN DERBYN CEFNOGAETH I GYCHWYN BUSNES (CYMORTH CYN CYCHWYN)

£4,719

GALLUOGI

BUDDSODDIAD SECTOR PREIFAT (PSI) I GEFNOGI ENTREPRENEURIAETH